I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 129

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Amrywiol) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Gorffennaf 2026* |
| *Yn dod i rym* | *10 Gorffennaf 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Amrywiol) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Gorffennaf 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

W E L S H S U B O R D I N A T E L E G I S L A T I O N

# NWSI 2026 No. 129

# ROAD TRAFFIC

## The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) (Llanwern, Newport) (Various Speed Limits) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 July 2026* |
| *Coming into force* | *10 July 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), and in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Gwent Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

**Title and coming into force**

**1.** The title of this Order is the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) (Llanwern, Newport) (Various Speed Limits) Order 2026 and this Order comes into force on 10 July 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

ystyr "ffordd fynediad" ("*access road*") yw Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) fel y'i pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 3.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Gorffennaf 2026

*N Hunter*

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 30 mya**

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Baldwin Drive hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol y gyffordd a reolir gan signalau â Kings Wall Drive.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol y gyffordd a reolir gan signalau â Kings Wall Drive hyd at bwynt 715 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Monk's Ditch Drive.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Monk's Ditch Drive hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol y gyffordd a reolir gan signalau â Kings Wall Drive.

"access road" ("*ffordd fynediad*") means the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) as specified in the Schedule to this Order.

**Restrictions**

**3.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour in that length of the access road specified in Schedule 1.

**4.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour in that length of the access road specified in Schedule 2.

**5.** No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour in that length of the access road specified in Schedule 3.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 July 2026

*N Hunter*

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**30 mph Speed Limit**

That length of the access road that commences from the eastern side of the A4810 roundabout with Baldwin Drive to a point 206 metres east of the centre of the signal-controlled junction with Kings Wall Drive.

**SCHEDULE 2**
**40 MPH Speed Limit**

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 206 metres east of the centre of the signal-controlled junction with Kings Wall Drive to a point 715 metres east of the eastern side of the A4810 roundabout with Monk's Ditch Drive.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 920 metres east of the eastern side of the A4810 roundabout with Monk's Ditch Drive to a point 206 metres east of the centre of the signal-controlled junction with Kings Wall Drive.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder 50 mya

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 715 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Monk's Ditch Drive hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd Comin Broad Street.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd Comin Broad Street hyd at bwynt 920 o fetrau i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Monk's Ditch Drive.

## SCHEDULE 3
## 50 MPH Speed Limit

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 715 metres east of the eastern side of the A4810 roundabout with Monk's Ditch Drive to a point 50 metres west of the centre of the Broad Street Common Junction.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 50 metres west of the centre of Broad Street Common Junction to a point 920 metres east of the eastern side of the A4810 roundabout with Monk's Ditch Drive.